

# Gwneud y gorau o'ch arian

Helpwr Arian

Llywodraeth EM

# Gall cymryd yr amser i reoli'ch arian wneud gwahaniaeth go iawn

Pa bynnag gyfnod bywyd rydych wedi cyrraedd – p'un a ydych yn cynilo ar gyfer pensiwn am y tro cyntaf, yn prynu neu rentu cartref, yn dechrau teulu neu'n bwriadu ymddeol – mae bob amser ffyrdd o wneud i'ch arian fynd ymhellach.

Ni allwn gwmpasu popeth yn yr arweiniad hwn, ond byddwn yn rhoi rhai awgrymiadau a gair i gall i'ch helpu ar hyd y ffordd.

## Deall eich arian

- Cymerwch olwg ar ein Cynlluniwr Cyllideb am ddim sy'n eich helpu i ddadansoddi'ch gwariant cartref a rheoli'ch arian. **moneyhelper.org.uk/rheolwr-cyllid**
- Cyfrifwch ba ddyledion i'w had-dalu'n gyntaf. Bydd hyn yn eich helpu i glirio'ch dyledion yn gynt. **moneyhelper.org.uk/ffordd-ymlaen/blaenoriaethwr-biliau**
- Mynnwch help os ydych yn cael trafferth gyda dyledion. Dysgwch ble i gael cyngor ar ddyledion am ddim. **moneyhelper.org.uk/dyled**

## Mynnwch yr arian y mae gennych hawl iddo

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn cael y cyflog cywir. Gwiriwch eich slip cyflog a'ch cod treth. **moneyhelper.org.uk/deall-eich-slip-cyflog**
- Peidiwch â cholli help pan fo ar gael — gwnewch yn siŵr eich bod yn hawlio'r holl fudd-daliadau y mae gennych hawl iddynt. **moneyhelper.org.uk/cy/benefits/benefits-calculator**
- Yn cael babi neu fabwysiadu? Darganfyddwch ba gymorth sydd ar gael. **moneyhelper.org.uk/budd-daliadau-babi**
- Mae costau gofalu am blant yn gallu cymryd talp mawr o incwm eich teulu. Darganfyddwch ba gymorth sydd ar gael. **moneyhelper.org.uk/cymorth-gyda-costau-gofal-plant**

## Cynlluniwch ar gyfer yr annisgwyl

- Cael cyngor ar sut i ddiogelu eich teulu, eich cartref a'ch eiddo gyda'r yswiriant cywir.
  **moneyhelper.org.uk/yswiriant**
- Dewiswch pwy fydd yn cael eich cynilion pensiwn pan fyddwch yn marw.
  **moneyhelper.org.uk/dibynyddion-ar-ol-ymddeol**
- Dysgwch pam y dylech ysgrifennu ewyllys a sut i fynd ati.
  **moneyhelper.org.uk/gwneud-ewyllys**
- Penodwch rywun y gallwch ymddiried ynddo i weithredu ar eich rhan os na fyddwch yn gallu rheoli eich materion eich hun.
  **moneyhelper.org.uk/pwer-atwrnai**
- Gall perthynas yn dod i ben olygu goblygiadau ariannol – gall gwybod eich opsiynau hwyluso'r broses a lleihau'r gost.
  **moneyhelper.org.uk/cyfrifiannell-arian-ac-ysgaru**
- Dysgwch sut i adnabod yr arwyddion ac osgoi colli eich arian mewn sgamiau.
  **moneyhelper.org.uk/sgamiau**
- Dysgwch y ffeithiau am ariannu gofal hirdymor.
  **moneyhelper.org.uk/cy/family-and-care/long-term-care/how-to-fund-your-long-term-care-a-beginners-guide**
- Dysgwch sut mae cynlluniau angladd yn gweithio a faint maent yn costio.
  **moneyhelper.org.uk/cy/family-and-care/death-and-bereavement/planning-and-paying-for-your-funeral**

## Diogelwch eich dyfodol

- Meddwl am sut i brynu'ch cartref cyntaf neu gartref nesaf? Defnyddiwch y cyfrifiannell defnyddiol hwn i gyfrifo faint allwch ei fforddio.
  **moneyhelper.org.uk/cyfrifiannell-fforddiadwyedd-morgais**
- Gweithiwch allan faint allwch ei fforddio i gynilo a sut i osod a chyrraedd eich targed cynilo.
  **moneyhelper.org.uk/arfer-cynilo**
- Os yw buddsoddi yn opsiwn, dyma sut i ddechrau arni.
  **moneyhelper.org.uk/canllaw-dechreuwyr-i-fuddsoddi**
- Gwnewch yn siŵr eich bod mewn pensiwn gwaith.
  **moneyhelper.org.uk/pensiwn-gweithle**
- Gwiriwch faint rydych yn ei gynilo a defnyddio ein cyfrifiannell pensiwn i weld a yw'n ddigon.
  **www.moneyhelper.org.uk/cy/pensions-and-retirement/pensions-basics/pension-calculator**
- Dysgwch beth yw eich opsiynau ymddeol os ydych yn 50 oed neu'n hŷn. Trefnwch eich apwyntiad Pension Wise.
  **www.moneyhelper.org.uk/cy/pensions-and-retirement/pension-wise**
- Weithiau, mae angen gweithiwr proffesiynol arnom ni oll i'n helpu i wneud y penderfyniadau cywir. Dewch o hyd i ymgynghorydd ariannol rheoledig i helpu gyda'ch cynllunio.
  **moneyhelper.org.uk/cyfeiriadur-cynghorydd-ymddeol**

**Gwneud eich arian a'ch dewisiadau pensiwn yn gliriach**

Beth bynnag eich amgylchiadau, mae HelpwrArian ar eich ochr chi. Ar lein a thros y ffôn, cewch arweiniad clir ar arian a phensiynau sy'n hawdd dod o hyd iddo, hawdd ei ddefnyddio ac wedi'i gefnogi gan y llywodraeth. Gallwn hefyd eich cyfeirio at wasanaethau dibynadwy, os oes angen rhagor o gefnogaeth arnoch.

Ar gael i bawb ac am ddim, mae HelpwrArian yn eich helpu i dalu eich dyledion, i leihau gwariant ac i wneud y mwyaf o'ch incwm. Er mwyn cefnogi anwyliaid, cynlluniwch ar gyfer pryniannau mawr a darganfod am hawliau. Cronnwch gynilion a phensiynau, a byddwch yn ymwybodol o'ch opsiynau.

Chwiliwch am HelpwrArian: **moneyhelper.org.uk/cy**

**Arweiniad diduedd am ddim**

ar y we | ar y ffôn

**Gwneud y gorau o'ch arian** yw un o'r arweiniadau sydd ar gael gan HelpwrArian. Mae'r Cyhoeddiad hwn ar gael yn y Saesneg. I weld ein hystod lawn o arweiniadau ac i ofyn am gopïau, ewch i **moneyhelper.org.uk/canllawiau print am ddim**

**HelpwrArian***

Arweiniad ar arian **0800 138 7777**
Llun – Gwe 8am 6pm

Arweiniad ar bensiynau **0800 011 3797**
Llun – Gwe 9am to 5pm

Typetalk **18001 0800 915 4622**
Llun – Gwe 8am to 6pm

WhatsApp **+44 7701 342744**

Gwefan **moneyhelper.org.uk/cy**

Helpwr Arian Cynilion

Darparwyd gan

Gwasanaeth Arian a Phensiynau

Os hoffech yr arweiniad hwn mewn Braille, print mawr neu fformat sain, cysylltwch â ni ar y rhifau isod. Gwybodaeth yn gywir ar adeg argraffu (Ebrill 2023). Adolygir yr arweiniadau hyn unwaith y flwyddyn.

*Mae galwadau am ddim. Er mwyn ein helpu i gynnal a gwella ein gwasanaeth, efallai y byddwn yn recordio neu n monitro galwadau.

© **MoneyHelper** Ebrill 2023

Cyf: MMOYM Apr23 Ed1 Welsh